Trosolwg o'r trefniadau amgen ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn haf 2021

Cynnwys[1]

	Tudalen
Cyflwyniad	2
1. Y Cefndir	2
2. Cynllunio ar gyfer 2021	3
2.1 Addasiadau i asesiadau – dull hyblyg	4
2.2 Cynllunio wrth gefn pellach - Sefyllfa sy'n newid a llinell amser digwyddiadau	5
3. Datblygu a gweithredu'r dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau	7
3.1 Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni	7
3.2 Ein canllawiau i ganolfannau ar drefniadau asesu amgen yn haf 2021	8
3.3 Ymgeiswyr Preifat	10
3.4 Canlyniadau annodweddiadol	11
3.5 Adolygiadau Canolfannau ac Apeliadau	12
3.6 Canllawiau a chymorth ychwanegol	14
3.7 Gwybodaeth wedi'i theilwra ar gyfer dysgwyr a rhieni/gofalwyr	15
4. Cofrestriadau	15
5. Canlyniadau	16
6. Llesiant dysgwyr	17
7. Cydraddoldeb	18
8. Trosolwg ar haf 2021	19
8.1 Ein dull rheoleiddio	19
8.2 Monitro cyfres yr haf	19
8.2.1 Sicrwydd Ansawdd allanol CBAC	20
8.2.1.1 Polisïau canolfannau	20
8.2.1.2 Crynodeb penderfyniadau dysgwyr	20
8.2.1.3 Canlyniad cymwysterau	20
8.2.1.4 Canolfannau y nodwyd bod ganddynt ganlyniadau annodweddiadol	20
8.2.1.5 Gwybodaeth am Adolygiadau Canolfannau	21
9. Sut wnaethon ni gyfathrebu	22
10. Beth nesaf? – Dull 2021/2022	24
10.1 Cyfres arholiadau Tachwedd 2021	24
10.2 Cyfres arholiadau Haf 2022	24

[1] Ailgyhoeddi 12 Awst i gynnwys gwybodaeth am ganlyniadau sy'n berthnasol i TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau CA4 a deilliannau cymwysterau galwedigaethol lefel 1/2 a lefel 2 dethol.

Cyflwyniad

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu cymwysterau cyffredinol (GQ), sy'n cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch. Arweiniodd at gau safleoedd ysgolion a cholegau (canolfannau) a chanslo arholiadau ledled y DU ar gyfer cyfres arholiadau 2020 a 2021.

Yng Nghymru, darperir cymwysterau cymeradwy[2] gan fwrdd arholi CBAC. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Lle mae pwnc heb gymhwyster cymeradwy, gall ysgolion a gynhelir yng Nghymru ddefnyddio cymwysterau a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr. Gall y sector annibynnol yng Nghymru gymryd cymwysterau a ddyluniwyd ar gyfer Cymru neu Loegr. Mae CBAC hefyd yn cynnig cymwysterau i ddysgwyr y tu allan i Gymru trwy eu brand Eduqas.

Mae cymwysterau cyffredinol yn cynorthwyo dilyniant i ddysgu mewn addysg bellach (AB) neu addysg uwch (AU). Ceisiodd ein dull leihau effaith y pandemig ar ddysgwyr oedd i gwblhau eu cymwysterau yn haf 2021 a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu eu gyrfa.

1. Y Cefndir

Fel rheolydd annibynnol y cymwysterau hyn yng Nghymru, ein rôl yw gosod gofynion ar gyfer cyrff dyfarnu. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, sy'n gosod polisi addysg ac yn goruchwylio'r system addysg yng Nghymru. Gall Gweinidogion Cymru ein cyfeirio ar faterion polisi, y mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnom i roi sylw iddynt.

Er mwyn lliniaru'r aflonyddwch i addysgu a dysgu a achoswyd gan y pandemig yn gynnar yn 2020, rhoddwyd addasiadau i asesiadau yn eu lle gan CBAC, yn ôl ein gofynion rheoliadol, ychydig cyn dechrau blwyddyn academaidd 2021.

Dechreuodd cynllunio wrth gefn ar gyfer haf 2021 ym mis Ebrill 2020 ac mae wedi cynnwys amrywiaeth o ddulliau. Yn y pen draw, oherwydd effaith barhaus COVID-19 ar addysg yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, y dull fu i ganolfannau bennu graddau o fewn model hyblyg, gan ddefnyddio tystiolaeth asesu i lywio barn broffesiynol am y graddau i'w dyfarnu.

[2] Mae cymwysterau cymeradwy wedi bodloni meini prawf cymeradwyo cymwysterau penodol sy'n sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

2. Cynllunio ar gyfer 2021

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cymryd cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch yng Nghymru yn astudio cymwysterau cymeradwy ar gyfer Cymru yn unig a ddyfarnwyd gan CBAC. Mae 32 TGAU, 29 lefel UG, 29 Safon Uwch, dwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a nifer o gymwysterau etifeddiaeth[3].

Dyfernir nifer fach o gymwysterau cyffredinol gan gyrff dyfarnu eraill sy'n gweithredu y tu allan i Gymru. Er ein bod yn rheoleiddio'r cymwysterau hynny, mae Ofqual yn gosod y gofynion ac ef yw'r prif reoleiddir ar gyfer y cymwysterau hyn a reoleiddir ar y cyd ac a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr.

Mor gynnar ag Ebrill 2020, roedd yn amlwg y byddai COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar addysg ac asesu a bod angen i ni gynllunio ar gyfer hyn. Roeddem yn gwybod bod dysgwyr a fyddai'n sefyll cymwysterau yn haf 2021 wedi profi aflonyddwch parhaus i'w dysgu o fis Mawrth 2020, felly buom yn gweithio gyda CBAC i ystyried y camau y gellid eu cymryd i leihau'r effaith barhaus i haf 2021. Roeddem yn gwybod bod risg uchel y byddai aflonyddwch pellach yn effeithio ar addysgu ac asesu ac y gallai cymwysterau a oedd yn cynnwys asesu sgiliau ymarferol fod yn fwy heriol i'w cyflawni pe bai cyfyngiadau symud pellach neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus.

O fis Mai 2020, gwnaethom ddechrau cynllunio wrth gefn. Roedd yn hanfodol ein bod yn cynllunio'n rhagweithiol ac ar yr un pryd ar gyfer amrywiol senarios wrth i effaith y pandemig ddatblygu fel y gallem fod mor barod â phosibl ar unrhyw bwynt penodol. Un opsiwn cynnar oedd addasu asesiadau i liniaru ar yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Cytunwyd ar y dull hwn gan Lywodraeth Cymru, a dechreuon ni archwilio sut y gallai hyn weithio gyda chydweithwyr yn CBAC. Fel rheoleiddiwr mae'n ddyletswydd arnom i ystyried y baich rydyn ni'n ei roi ar y cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu rheoleiddio. Felly, wrth gynllunio, a chytuno ar drefniadau ar gyfer haf 2021, buom yn gweithio'n agos gyda CBAC i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod ein penderfyniadau yn hylaw ac yn gyflawnadwy i alluogi dysgwyr i dderbyn graddau ar Ddiwrnodau Canlyniadau[4].

Arweiniodd digwyddiadau haf 2020 at graffu dwys ar y system gymwysterau yng Nghymru; roedd hyn hefyd yn wir ledled y DU gyfan. Beirniadwyd Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC yn gyhoeddus am benderfyniadau a wnaed ynghylch y trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau ac roedd hyn yn cael effaith negyddol ar hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau. Ar 28 Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sefydlu Adolygiad

[3] CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[4] Mae'r Diwrnodau Canlyniadau yn gynharach eleni; 10 Awst ar gyfer cymwysterau Lefel 3, gan gynnwys UG a Safon Uwch, a 12 Awst ar gyfer cymwysterau Lefel 2, gan gynnwys TGAU.

annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021. Cyhoeddwyd adroddiad interim ar 29 Hydref 2020, ac adroddiad terfynol ar 22 Ionawr 2021. Roedd y ddau adroddiad yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o 2020 ac argymhellion ar gyfer 2021, gan gynnwys y dylid sefydlu grŵp cynghori i ddatblygu cynigion ymarferol a allai gyflawni polisi'r Gweinidog Addysg ar gymwysterau yn 2021. Ym mis Tachwedd, sefydlwyd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni gan y Gweinidog i gyflawni'r swyddogaeth hon.

2.1 Addasiadau i asesiadau – dull hyblyg

Gwnaethom strwythuro ein dull rheoleiddio ar gyfer addasiadau i'r gofynion asesu ar gyfer haf 2021 o amgylch set o egwyddorion trosfwaol y dylai CBAC eu cymhwyso wrth addasu asesiadau, a gofynion manylach y bu'n rhaid i CBAC gydymffurfio â hwy wrth wneud yr addasiadau hynny Lluniodd CBAC eu cynigion yn unol â'n Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 ac Amodau Arbennig ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021, a gyhoeddwyd gennym ar 15 Gorffennaf 2020. Ym mis Mehefin 2020, dechreuodd CBAC ymgynghori â chanolfannau ar eu cynigion ar gyfer addasiadau i asesiadau ar gyfer 2021, pe bai eu hangen.

Roedd yr addasiadau'n ceisio lliniaru amser addysgu a dysgu a gollwyd trwy leihau pwysau asesu wrth gynnal datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar draws cwricwlwm eang ac addas Roedd yn bwysig nad oedd yr addasiadau yn rhoi mantais nac anfantais i ddysgwyr mewn perthynas â'u cyfoedion sy'n cymryd mathau eraill o gymwysterau, neu mewn gwahanol awdurdodaethau, ac nad oeddent yn tanseilio dilysrwydd, dibynadwyedd a hygrededd y cymwysterau yng Nghymru a thu allan i Gymru. Yn gyffredinol, cafodd addasiadau arfaethedig CBAC gefnogaeth eang.

Ar 3 Gorffennaf 2020, rhoddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd inni ynghylch ystyriaethau ar gyfer cymwysterau cyffredinol ar gyfer 2021; i baratoi ar gyfer cynnal arholiadau yn 2021 fel arfer, er gyda rhai addasiadau i ystyried unrhyw amser dysgu a gollwyd. Yr un diwrnod, gwnaethom ysgrifennu llythyr at ganolfannau yn nodi y byddai addasiadau yn cael eu gwneud i gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru. Ar 15 Gorffennaf, gwnaethom ysgrifennu llythyr at ganolfannau, a oedd yn cynnwys mwy o fanylion am yr addasiadau.

Darparodd CBAC wybodaeth ac arweiniad manwl i ganolfannau am yr addasiadau terfynol, ar sail cymwysterau unigol, ar gyfer TGAU ar 21 Gorffennaf 2020 ac ar gyfer UG a Safon Uwch ar 6 Awst 2020. Gwnaeth CBAC hefyd addasiadau i gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau a chyfleu'r rhain i ganolfannau ym mis Awst 2020.

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd CBAC liniaru pellach ar gyfer asesiad di-arholiad (NEA).

2.2. Cynllunio wrth gefn pellach - sefyllfa sy'n newid a llinell amser digwyddiadau

Yn Nhymor yr Hydref, roedd graddfa'r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig yn parhau i fod yn sylweddol. Ar 16 Hydref, gwnaethom anfon cyngor at y Gweinidog yn argymell y dylid dyfarnu graddau trwy gyfuniad o arholiadau ac asesiad yn y dosbarth yn ychwanegol at fesurau lliniaru a ddarparwyd gan yr addasiadau i asesiadau cyhoeddedig. Roedd canslo arholiadau yn opsiwn yr oeddem wedi'i ddadansoddi ond nid hwn oedd y dull a ffafriwyd gennym ar y pryd oherwydd ei fod yn cyflwyno risgiau posibl o lwyth gwaith sylweddol i athrawon a darlithwyr a gallai waethygu effaith yr aflonyddwch parhaus ar lesiant dysgwyr. Yn benodol, roeddem o'r farn bod cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy wedi'u cynllunio i gael eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n rhannol trwy arholiad[5], ac nid oeddem o'r farn ein bod eto ar y pwynt lle byddai effaith y pandemig wedi gwneud asesiadau wedi'u hamserlenni'n amhosib.

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, ac yn dilyn ystyriaeth bellach, penderfynodd y Gweinidog Addysg ar 10 Tachwedd ganslo arholiadau haf 2021. Yn dilyn hynny, cyfarwyddwyd Cymwysterau Cymru gan Lywodraeth Cymru i'r perwyl hwn, gan gydnabod bod y penderfyniadau terfynol ynghylch trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau'r haf ac unrhyw drefniadau asesu amgen yn rhai i ni eu cymryd a'u gweithredu.

Sefydlwyd y Grŵp Dylunio a Chyflawni gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020 i ddatblygu cynigion ymarferol a allai gyflawni polisi'r Gweinidog Addysg ar gymwysterau yn 2021. Mae'r grŵp yn cyflawni swyddogaeth gynghori i Weinidogion Cymru ac nid oes ganddynt unrhyw rôl ffurfiol o ran gwneud penderfyniadau, nac effeithio ar drefniadau atebolrwydd na chyfrifoldebau statudol unrhyw sefydliad arall. Fodd bynnag, maent wedi cyfrannu'n allweddol wrth sefydlu trefniadau asesu amgen. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Cylch Gorchwyl hyd at Ionawr 20 2021 a'r Cylch Gorchwyl o 20 Ionawr 2021.

Ar 16 Rhagfyr, rhannodd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni fyfyrdodau a meysydd consensws gyda'r Gweinidog, a gynigiodd, yn absenoldeb cyfres arholiadau, ddull tair asesu â thair colofn: NEA (lle bo hynny'n berthnasol), asesiadau a reolir yn fewnol ac asesiadau gaiff eu gosod a'u marcio'n allanol. Rhoesom gyngor technegol i'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni wrth iddynt ddatblygu'r cynigion hyn.

Ddiwedd mis Rhagfyr 2020, cyflymodd yr ail don o heintiau COVID-19 yn gyflym, a chyflwynwyd cyfyngiadau symud rhybudd lefel 4 yng Nghymru dros gyfnod y Nadolig.

5 Eithriad – cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch mewn Celf sydd i gyd trwy asesiad di-arholiad.

Ar 4 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai canolfannau'n ailagor ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb yn dilyn gwyliau'r Nadolig.

Ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, CBAC a grwpiau rhanddeiliaid allweddol eraill, buom yn gweithio gyda'n gilydd, ar gyflymder, i ddatblygu dull amgen i ganiatáu i ddysgwyr yng Nghymru dderbyn cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 er mwyn iddynt allu symud ymlaen i ddysgu pellach neu i gyflogaeth. Roedd llythyr y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni at y Gweinidog yn cynnig cyngor ar y trefniadau asesu amgen a fyddai, pe baent yn cael eu derbyn gan y Gweinidog, yn ffurfio cyfarwyddyd inni. Ar 18 a 19 Ionawr 2021, bu Bwrdd Cymwysterau Cymru yn ystyried cyfeiriad polisi disgwyliedig y Gweinidog yn seiliedig ar y cyngor hwn.

Ar 20 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y safbwynt polisi y byddai cymwysterau dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yn cael eu dyfarnu trwy fodel Graddau a Bennir gan Ganolfannau, sy'n golygu y byddai graddau'n cael eu pennu gan ganolfannau gan ddefnyddio barn broffesiynol gyfannol yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, a'r Cyfarwyddyd disgwyliedig a fyddai'n dilyn, ymrwymodd Cymwysterau Cymru yn gyhoeddus i:

1. Newid rheoliadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yng Nghymru i ganiatáu ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau.
2. Gweithio gyda CBAC a'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i sefydlu fframwaith asesu i gefnogi canolfannau.

Yn ogystal, byddai CBAC yn datblygu ac yn gweithredu proses sicrhau ansawdd i sefydlu bod canolfannau'n rhoi gweithdrefnau priodol ar waith. Gan mai prif bwrpas yr addasiadau i asesu, a eglurir yn yr adran uchod, oedd lliniaru amser addysgu a dysgu a gollwyd, fe wnaethant aros yn eu lle.

Ar 19 Chwefror, cawsom y Cyfarwyddyd polisi terfynol mewn llythyr. Roedd hyn yn cynnwys bwriad y Gweinidog, er na fyddai unrhyw gymedroli, y gellir adolygu proffiliau graddau a gyflwynwyd ac y byddai unrhyw broffiliau annodweddiadol yn destun trafodaeth gyda chanolfannau. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod trefniadau i gefnogi deialog broffesiynol rhwng canolfannau i'w datblygu ond eglurodd nad mater i ni na CBAC oedd ei ddylunio na'i gyflawni a'i fod i orwedd y tu allan i'n fframwaith rheoleiddio. Ar 23 Chwefror, gwnaethom ymateb i'r Cyfarwyddyd yn nodi'r cyfyngiadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull arfaethedig.

Er bod y ffaith na fyddai cymedroli wedi'i chynnwys yn ein canllawiau o'r cychwyn cyntaf, gwnaethom egluro'n ddiweddarach y byddai absenoldeb unrhyw gymedroli allanol yn golygu nad oedd yn bosibl i CBAC newid unrhyw un o'r graddau a gyflwynwyd. Yn fersiwn tri o'n canllawiau, gwnaethom gadarnhau 'Ni fydd CBAC yn ymyrryd i newid canlyniadau cyffredinol canolfannau ond gallai ofyn i ganolfannau ailedrych ar eu canlyniadau os na ellir cyfiawnhau patrwm y canlyniadau gan y rhesymeg a gyflwynir.' Gwnaethom dynnu sylw pellach at y wybodaeth hon yn y fersiwn derfynol.

ION

Canolfannau'n parhau ar gau

Llythyr DDAG i'r Gweinidog yn cynnig cyngor

Y Gweinidog yn cyhoeddi'r model CDG

Gwnaethom ymrwymo i newid rheoliadau ac i weithio gyda CBAC i roi fframwaith asesu ar waith

CHWEF

Rydym yn derbyn Yn ffurfiol y Cyfarwyddyd

3. Datblygu a gweithredu'r dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau

Roedd canolfannau a dysgwyr eisiau gwybod cymaint â phosibl am y trefniadau asesu amgen a fyddai'n cael eu rhoi ar waith. Er ein bod yn ymwybodol o'r angen hwn am eglurder, roedd yn rhaid datblygu'r dulliau amgen yn fanwl a'u cytuno cyn y gellid eu cyfleu. Buom yn gweithio'n gyflym ac yn agos gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i ddatblygu a chytuno ar y dull cyffredinol, a drafodwyd wedyn gyda rhanddeiliaid eraill [6]cyn cael ei gyfleu'n eang.

Yn dilyn hynny, datblygodd CBAC ganllawiau gweithredol manwl ar gyfer canolfannau gyda mewnbwn gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i ystyried hydrinedd. Roedd y drefn weithio hon yn golygu na ellid cyhoeddi'r canllawiau cyffredinol a chanllawiau gweithredol manwl CBAC i gefnogi canolfannau i gyd ar yr un pryd. Cytunwyd ar gynllun i ryddhau gwybodaeth fesul cam, yn ôl llinell amser a gynlluniwyd, gyda'r wybodaeth yn cael ei blaenoriaethu o ran yr hyn y byddai angen i ganolfannau a dysgwyr ei wybod gyntaf. Cafodd y llinell amser hon ei chynnwys yn ein canllawiau cyffredinol, fel bod eglurder i ganolfannau a dysgwyr pa wybodaeth fyddai ar gael a phryd.

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar yn dangos bod angen lefel uchel o hyblygrwydd yn y trefniadau asesu amgen, i adlewyrchu'r gwahanol lefelau o aflonyddwch a brofir ar lefel canolfan a rhanbarthol a hyd yn oed ar lefel dysgwr. Hyd yn oed o fewn yr addasiadau a ryddhawyd yn flaenorol gan CBAC, roedd angen yr hyblygrwydd ar ganolfannau i fynd ymhellach er mwyn gallu dyfarnu graddau yn seiliedig yn unig ar yr hyn a ddysgwyd eisoes i ddysgwyr. Er bod rhai rhanddeiliaid yn deall bod manteision o gael rhywfaint o reolaeth a rhagnodi yn y dull er mwyn bod mor deg â phosibl i ddysgwyr, roedd gan rai rhanddeiliaid bryderon y gallai rhagnodi gormod o fanylion wneud y dull yn amhosibl i'w weithredu. Roedd dod o hyd i gyfaddawd a oedd yn diwallu anghenion rhesymol yr holl randdeiliaid, ond rhai a oedd yn aml yn gwrthdaro, ynghyd ag anelu at warchod dilysrwydd, dibynadwyedd a hygrededd y cymwysterau a reoleiddiwn, yn ganolog i'n holl benderfyniadau ar gyfer haf 2021.

Yn ogystal, gwnaethom gynnal trafodaethau rheolaidd â rheoleiddwyr cymwysterau [7] mewn awdurdodaethau eraill yn y DU i gael y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i Gymru a'u deall.

3.1 Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni

Cynhaliwyd y prif gyfarfodydd gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn wythnosol rhwng 13 Tachwedd 2020 a diwedd mis Mai, ac yn ôl yr angen ar ôl yr amser hwnnw. Gwnaethom ni a CBAC arsylwi cyfarfodydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a darparu cyngor technegol, pan oedd hynny'n briodol. Rhoddodd y grŵp gyngor ar hydrinedd y trefniadau ac adolygwyd canllawiau polisi a gweithredol allweddol.

Er mwyn datblygu'r trefniadau asesu amgen ar y cyflymder angenrheidiol, ffurfiodd aelodau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni is-grwpiau i ganolbwyntio ar feysydd allweddol y broses, ac

[6] Rhestrir rhanddeiliaid eraill nad ydynt wedi'u henwi yn yr adran hon yn adran 9
[7] Ofqual, CCEA a SQA.

i roi adborth i ni a CBAC am rai o agweddau manylach y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Y pedwar is-grŵp oedd:

- Apeliadau
- Fframwaith Asesu a Sicrwydd Ansawdd Mewnol
- Cydraddoldeb a Llais y Dysgwr
- Dysgu Proffesiynol a Materion Gweithlu

Canolbwyntiodd y grwpiau hyn ar yr agweddau allweddol a chyfarfod ar wahân i'r prif gyfarfod, weithiau fwy nag unwaith yr wythnos, o ddechrau'r flwyddyn newydd. Yna rhoddodd Cadeiryddion y grwpiau hyn ddiweddariadau yng nghyfarfodydd y prif grŵp.

3.2 Ein canllawiau i ganolfannau ar drefniadau asesu amgen yn haf 2021

Yn ein canllawiau ar drefniadau amgen yn haf 2021 cyntaf a gyhoeddwyd, gwnaethom nodi bod yn rhaid dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn Haf 2021 ar sail cyrhaeddiad amlwg mewn meysydd o gynnwys cymhwyster yr oedd dysgwr wedi'u hastudio. Roedd y dull o gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn dibynnu ar farn gyfannol, broffesiynol athrawon a darlithwyr, a hynny wedi'i ategu gan dystiolaeth ddigonol o gyrhaeddiad amlwg ar draws themâu a sgiliau allweddol.

Roedd y canllawiau yn esbonio y byddai CBAC yn rhyddhau mwy o fanylion am weithdrefnau gweithredol ac yn cynnwys llinell amser i ddangos pryd y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer canolfannau, yn ogystal â pha hyfforddiant a chefnogaeth broffesiynol a fyddai'n cael ei ddarparu a phryd. Ein nod oedd darparu cymaint o wybodaeth mor gynnar â phosibl ac wrth i wahanol agweddau ar y trefniadau gael eu cwblhau ar ôl ymgynghori â'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau yn unol â hynny a nodi'r wybodaeth newydd yn glir.

Yn gyfan gwbl, gwnaethom gyhoeddi pedair fersiwn o'n canllawiau rhwng 9 Chwefror a 17 Mai, wedi'u diweddaru bob tro yn ôl cynnydd yn natblygiad y dull gweithredu a'u mireinio yn seiliedig ar adborth a gafwyd. Bob tro, gwnaethom ysgrifennu llythyr yn hysbysu canolfannau am y cyhoeddiad wedi'i ddiweddaru ac yn tynnu sylw at wybodaeth newydd i'w gwneud hi'n gyflymach i ddarllenwyr ddod o hyd iddi.

Yn ogystal â'r angen i ddarparu lefelau uchel o hyblygrwydd i fodloni ystod eang o amgylchiadau unigol, nodweddion allweddol eraill y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau oedd:

- **Roedd angen i ddyfarniadau cyfannol, ffit orau fod yn seiliedig ar dystiolaeth dysgwr unigol o gyrhaeddiad**, nid potensial, yng nghynnwys y fanyleb wedi'i haddasu. Roedd hyn fel bod graddau mor wrthrychol â phosibl o dan yr amgylchiadau ac fel y gallai tystiolaeth o gyrhaeddiad gwirioneddol gefnogi unrhyw apêl ynghylch dyfarniad gradd pe bai angen, tra byddai rhagfynegiadau o botensial dysgwr bob amser yn oddrychol ac yn agored i'w herio.
- **Gellid defnyddio ystod o dystiolaeth addas**, yn dibynnu ar gyd-

destunau lleol - roedd ansawdd yr asesiad yn bwysicach na maint.

- **Anogwyd canolfannau i sicrhau bod tystiolaeth asesu yn ddigon dilys**, i ganiatáu dyfarniadau da. Yn absenoldeb arholiadau, ni roddwyd unrhyw ofynion sefydlog ar waith a chaniatawyd i ganolfannau arfer lefel uchel o ddisgresiwn o ran pa asesiadau i'w defnyddio.
- **Caniatawyd i ganolfannau arfer disgresiwn** o ran amodau'r asesiadau a gymerwyd, yn amrywio o, er enghraifft, o dan amodau rheoledig yn y ganolfan i gwblhau heb oruchwyliaeth gartref, a gellid ystyried hyn wrth lunio barn.
- **Roedd angen i ganolfannau ddatblygu prosesau sicrhau ansawdd mewnol** i wella cysondeb o ran dulliau yn y ganolfan.
- **Roedd angen i ganolfannau fod â phrosesau ar waith i ddogfennu'n gyson y rhesymeg** dros benderfyniadau gradd ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys unrhyw drefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig a gymhwysir. Roedd angen i gofnodion gwneud penderfyniadau ddarparu eglurder i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr a gallu cefnogi'r broses apelio.
- **Roedd angen i ganolfannau gyflwyno datganiad Pennaeth Canolfan** i CBAC, ynghyd â'u graddau canolfan, a oedd yn cadarnhau fod y graddau wedi'u pennu gan y ganolfan yn briodol.
- **Byddai canolfannau'n cael eu cefnogi i drafod eu proses, sut y cymhwysir y broses, a'u canlyniadau, gyda chanolfannau eraill ledled Cymru** (roedd hyn y tu allan i brosesau sicrhau ansawdd CBAC a thu allan i fframwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru).
- **Byddai CBAC yn gweithredu rhaglen o brosesau sicrhau ansawdd allanol** o'r polisïau perthnasol a roddwyd ar waith a'r gweithdrefnau a gynhaliwyd mewn canolfannau. Nid oedd hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd na chymedroli'r graddau a bennir gan ganolfannau.

Rhyddhawyd llawer o wybodaeth i ganolfannau dros gyfnod cymharol fyr, yn enwedig ddiwedd y Gwanwyn, wrth i ddulliau gael eu datblygu ar gyflymder. Wrth i wybodaeth gael ei rhyddhau, gwnaethom ymateb i adborth rhanddeiliaid a chynnal sesiynau ychwanegol gydag amrywiol grwpiau yn ôl yr angen, megis grwpiau rhanbarthol o benaethiaid ac arweinwyr colegau a grwpiau cynrychioli undebau llafur. Gwnaethom hefyd egluro gwybodaeth bwysig am y trefniadau, megis ein 8 ffaith allweddol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.



Ym mhob gohebiaeth a chyhoeddiad, roeddem yn anelu at bwysleisio bod y dull graddau a bennir gan ganolfannau yn ceisio cydbwyso hyblygrwydd i ganolfannau â gofynion i ddarparu cymaint o gysondeb â phosibl o dan yr amgylchiadau ledled Cymru. Yn ein hymateb i Bwyllgor Deisebau Senedd Cymru[8] ar 26 Mawrth 2021, gwnaethom nodi, yn y pen draw, bod ar y trefniadau eithriadol a roddwyd ar waith ar gyfer yr haf angen 'ymrwymiad ar draws y system i ganlyniadau dilys a chredadwy sy'n caniatáu i ddysgwyr fod â hyder yn eu canlyniadau a symud ymlaen i'w camau nesaf.'

3.3 Ymgeiswyr Preifat

Yr haf hwn, cafwyd 469 o ymgeiswyr preifat, a nodwyd felly gan y ganolfan a oedd yn eu cofrestru, ar gyfer cymwysterau CBAC yng Nghymru. Roedd sicrhau bod ymgeiswyr preifat yn gallu cael graddau yn flaenoriaeth, a gwnaethom ddatblygu dull a oedd mor gymharol â phosibl â'r dull ar gyfer dysgwyr eraill.

Cliciwch yma

Ystyriodd is-grŵp Cydraddoldeb y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni amrywiol opsiynau. Roedd y dull olaf yn cynnwys dau lwybr posibl y gallai ymgeiswyr preifat eu cymryd. Roedd Llwybr A yn cynnwys canolfannau yn asesu ymgeiswyr preifat a, lle nad oedd y llwybr hwn yn briodol, gallai ymgeiswyr preifat gymryd llwybr B, lle roedd canolfan yn gartref i'r ymgeisydd preifat, ond lle y byddai CBAC yn cymryd cyfrifoldeb am bennu'r radd, fel a ganlyn:

[8] Pwyllgor Deisebau (senedd.Cymru)

Llwybr A – Llwybr lle mae'r ganolfan yn asesu	Llwybr B – Llwybr lle mae'r ganolfan yn hwyluso
Os oeddent yn gwybod bod canolfan eisoes wedi cytuno i'w cofrestru ar gyfer cymhwyster ac asesu eu gwaith, byddai hyn yn parhau yn ôl yr hyn a gynlluniwyd.	Os nad oeddent yn gwybod am ganolfan, byddent yn gallu dod o hyd i un a fyddai'n barod i gofrestru ymgeiswyr preifat yn eu rhanbarth o Gymru ar restr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddent yn gallu mynd at y canolfannau hyn yn uniongyrchol.
Cynhyrchwyd eu Gradd(au) a Bennir gan Ganolfannau yn yr un modd ag ar gyfer dysgwyr a oedd yn mynychu'r ganolfan.	Byddent yn gallu mynd i safle'r ganolfan i gwblhau rhai o'r asesiadau gofynnol a chyflwyno portffolio o waith a allai gynnwys gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau. Byddai arholwyr CBAC yn marcio eu gwaith, gan ddilyn yr un canllawiau ag a ddefnyddiwyd gan ganolfannau, i gynhyrchu eu gradd.
Byddent yn gallu gofyn i'r ganolfan adolygu graddau, os oedd angen.	Byddent yn gallu gofyn am adolygiad o'r graddau, os oedd angen. Byddai CBAC yn cynnal yr adolygiad hwn.

Nid yw cynnwys CBAC mewn asesiad uniongyrchol fel hyn yn nodwedd o'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer mwyafrif y dysgwyr yr haf hwn, ond teimlwyd mai hwn oedd yr ateb gorau o dan yr amgylchiadau anghyffredin.

Ar ôl cytuno ar y dull gweithredu, gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod canolfannau a fyddai'n hwyluso ymgeiswyr preifat, a bod y rhain ar gael ac yn hygyrch ledled Cymru a buom yn gweithio gyda CBAC i gytuno ar y trefniadau terfynol. Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi trefniadau penodol ar gyfer canolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat.

Mae ymgeiswyr preifat yn cynrychioli grŵp amrywiol o ddysgwyr, ac mae eu hanghenion unigol yn amrywio'n sylweddol. Am wybodaeth benodol ynghylch ein hystyriaethau cydraddoldeb mewn perthynas ag ymgeiswyr preifat gweler Cydraddoldeb: Rheoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021.

3.4 Canlyniadau annodweddiadol

Yn y Cyfarwyddyd polisi gan y Gweinidog, roedd yn ofynnol cael cam olaf yn y broses i ddiogelu hygrededd canlyniadau i ddysgwyr yng Nghymru yn haf 2021. Bwriad hyn, yn absenoldeb cymedroli, oedd y byddai proffiliau canlyniadau canolfannau annodweddiadol yn cael eu trafod gyda chanolfannau. Oherwydd natur wahanol y trefniadau asesu ar gyfer yr haf hwn o gymharu â blynyddoedd blaenorol, nid oedd unrhyw ffordd syml, ddelfrydol i nodi pa ganlyniadau y gellid eu hystyried yn annodweddiadol, ond roedd angen i ganolfannau wybod sut y byddent yn cael eu hadnabod. Datblygwyd dull i arwain a darparu tryloywder i ganolfannau ac i lywio proses CBAC o adnabod canolfannau lle gallai fod angen trafodaeth bellach am batrwm cyffredinol y canlyniadau.

Yr agwedd hon ar y trefniadau oedd un o'r manylion terfynol i'w rhoi ar waith, er bod rhybudd ymlaen llaw ohoni wedi'i gynnwys o'r cychwyn cyntaf yn y Cyfarwyddyd ac yn ein canllawiau cyffredinol. Profodd yn heriol a chodwyd nifer o bryderon gan randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch baich darparu rhesymeg canolfannau ar gyfer canlyniadau canolfannau, pryderon ynghylch amwysedd ynghylch cymariaethau canlyniadau a fyddai'n cael eu gwneud a'r effaith bosibl ar ganolfan pe bai eu canlyniadau'n cael eu hystyried yn annodweddiadol.

Trwy drafodaeth helaeth gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a rhanddeiliaid eraill, cytunwyd y byddai disgwyl i bob canolfan gynhyrchu rhesymeg dros eu canlyniadau canolfan gyffredinol ar gyfer pob math o gymhwyster (TGAU, UG neu Safon Uwch) a byddai goddefiannau'n cael eu defnyddio i arwain lefel y rhesymeg ac a ddylid ei gyflwyno i CBAC. Gwnaethom gadarnhau sut y byddai goddefiannau'n cael eu defnyddio, a rhoesom enghreifftiau o hyn, ar dudalennau 6-7 o'n canllawiau fel a ganlyn:

Bydd y goddefiannau'n cael eu cymhwyso i'r gorau o ganlyniadau cyffredinol y ganolfan o ganlyniadau 2017, 2018 a 2019 ar gyfer pob math o gymhwyster (TGAU, UG neu Safon Uwch).

- Nid yw'r goddefiannau'n bwriadu gosod cap ar ganlyniadau'r ganolfan, ac nid ydynt ychwaith yn gosod targedau i anelu atynt, fe'u sefydlwyd i ddarparu tryloywder i ganolfannau ynghylch canlyniadau a fydd yn sbarduno gwahanol lefelau o graffu ar batrwm y canlyniadau ar lefel canolfan.
- Bydd y raddfa oddefgarwch yn seiliedig ar wahaniaethau +3 phwynt canran i +7 pwynt canran ar raddau allweddol ar gyfer y gorau o ganlyniadau cyffredinol y ganolfan o 2017, 2018 a 2019. Nid yw'r goddefiannau'n ymwneud â mesurau pwyntiau perfformiad Llywodraeth Cymru.
- Er enghraifft, os nad yw canlyniadau cyffredinol canolfan yn fwy na 3 phwynt canran uwchlaw ei chanlyniad gorau yn y blynyddoedd hynny, yna mae'n debygol mai dim ond sail resymegol lefel uchel iawn sydd ei hangen ac nid oes angen ei chyflwyno i CBAC.
- Os yw canlyniadau cyffredinol canolfan 7 pwynt canran neu fwy yn uwch na'r gorau o ganlyniadau cyffredinol y ganolfan o 2017, 2018 a 2019, yna byddai angen sail resymegol fanylach a dylid ei chyflwyno i CBAC

3.5 Adolygiadau Canolfannau ac Apeliadau

Yn haf 2020, roedd cyfyngiadau ar yr hyn y gallai dysgwr apelio mewn perthynas â'i raddau. Un o argymhellion yr Adolygiad Annibynnol felly, oedd bod yn rhaid i broses apelio effeithiol, ymarferol a theg fod ar gael.

Roedd y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn rhoi athrawon, darlithwyr ac arweinwyr canolfannau wrth wraidd cyflwyno system a oedd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen. Roedd hefyd yn golygu bod ganddyn nhw rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at brosesau adolygu ac apelio teg eleni, rhywbeth a gafodd ei gynnwys fel rhan o Gyfarwyddyd y Gweinidog Addysg.

Profodd yr agwedd hon ar y trefniadau i fod yn un o'r rhai mwyaf heriol i'w chwblhau, yn bennaf oherwydd pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch y llwyth gwaith a'r baich y byddai'n ei gyflwyno i ganolfannau. Roedd rhai o'r materion yn canolbwyntio ar yr angen am Gofnod Gwneud Penderfyniadau ar gyfer pob penderfyniad gradd, p'un a ddylid eu rhyddhau a phryd, a hawl dysgwr i gael gafael ar dystiolaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniadau gradd.

Trwy drafodaeth helaeth gydag Is-grŵp Apeliadau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a'r prif grŵp, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys grwpiau yn cynrychioli'r Undebau Llafur a Chomisiynydd Plant Cymru, gwnaethom geisio cydbwyso'r goblygiadau llwyth gwaith i ganolfannau â'r angen i ddarparu proses apelio deg ac ystyrlon ar gyfer pob dysgwr. Wrth inni agosáu at gwblhau'r broses, roedd cryfder yr adborth gan grwpiau rhanddeiliaid yn golygu ein bod wedi penderfynu gohirio cyhoeddi canllawiau ar y broses, fel y gallem ailedrych ar rai o'r meysydd anoddaf. Yn ystod y cyfnod hwn o bythefnos, gwnaethom ailystyried y trefniadau i wirio a oedd unrhyw addasiadau a fyddai'n sicrhau gwell cydbwysedd rhwng yr agweddau allweddol. Yn y pen draw, fe gyrhaeddon ni safle a ddiwygiwyd rhyw ychydig ac a gafodd gefnogaeth ehangach, er bod rhai pryderon o hyd am y broses.

Nododd Cymwysterau Cymru y gofynion cyffredinol yr oedd angen i CBAC eu dilyn wrth gyflawni'r broses apelio. Roedd ein fersiwn derfynol o'n Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2021 a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mai yn cynnwys canllawiau terfynol ar y broses a eglurir yn yr ffeithlun isod.



Fe wnaethom ddarparu arweiniad i ganolfannau ar yr amserlenni rhesymol lleiaf ar gyfer gofyn am adolygiadau ac apeliadau canolfannau fel y gallai dysgwyr a'u rhieni a/neu ofalwyr wneud penderfyniadau rhesymegol, gyda chefnogaeth briodol gan ganolfannau. Ym mis Mai 2021, gwnaethom gyhoeddi ein Gwybodaeth i ganolfannau am adolygiadau canolfan ac apeliadau yn ystod haf 2021.

3.6 Canllawiau a chymorth ychwanegol

Yn ogystal â'n canllawiau cyffredinol, roeddem yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC ddarparu'r canllawiau manwl canlynol i gefnogi canolfannau i weithredu'r dull graddau a bennir gan ganolfannau:

- **Fframweithiau Asesu Cymwysterau (gan gynnwys disgrifyddion graddau)** - sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol o ran yr hyn y dylid ei asesu i gynhyrchu Graddau a bennir gan Ganolfannau ar gyfer pob cymhwyster.
- **Canllaw Graddio ar gyfer canolfannau** – a roddodd gyngor manwl i ganolfannau ynghylch y gofynion ar gyfer polisïau asesu a'r cofnod gwneud penderfyniadau a datganiad Pennaeth y Ganolfan – gan gynnwys arweiniad ar y broses Sicrhau Ansawdd. Diweddarwyd ac ailgyhoeddwyd y canllaw hwn wrth i fanylion diweddarach y broses gael eu cwblhau.
- **Canllawiau ar bolisi Canolfannau ar asesu a sicrhau ansawdd** – a oedd yn darparu trosolwgl ar brosesau sicrhau ansawdd CBAC gan gynnwys gwirio polisïau asesu canolfannau, cofnodion a chanlyniadau annodweddiadol.

Yn ychwanegol darparodd CBAC:

- Canllawiau ar gyfer canolfannau sy'n darparu llwybr B i ymgeisydd preifat
- Canllawiau creu asesiadau
- Canllawiau cywiro gwallau gradd
- Canllawiau ar Canolfannau Assessu ac Apêl
- Dewis o ddeunydd ar gyfer pynciau penodol
    - Addasu deunydd assessiadau
    - Hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer marcio assessiadau gan gynnwys deunydd esiamplau
    - Adroddiad ar gyfer pob un canolfan sy'n cynnwys data hanesyddo
- Dewis darparu adroddiad rheolaidd sy'n cynnwys cyfangorff canolfannau
- Gradd pendant i helpu dadansoddi graddau
- Canllawiau myfyriwr

Rhwng mis Mawrth a mis Mai, cynhaliodd CBAC raglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol, i gefnogi ymhellach weithrediad llwyddiannus y dull graddau a bennir gan ganolfannau. Y meysydd allweddol oedd:

- Sylfeini a chreu asesiadau
- Dull canolfannau o asesu a sicrhau ansawdd penderfyniadau graddio
- Rhagfarn ddiarwybod a gwrthrychedd
- Arferion da wrth wneud penderfyniadau graddio terfynol a sicrhau ansawdd
- Cyflwyno Graddau a Bennir gan Ganolfannau
- Sesiynau holi ac ateb byw

3.7 Gwybodaeth wedi'i theilwra ar gyfer dysgwyr a rhieni/gofalwyr

Fe wnaethon ni greu ardal Cymwysterau Haf 2021 bwrpasol ar ein gwefan lle mae adran yn benodol ar gyfer dysgwyr lle gwnaethom gyhoeddi esboniadau a fersiynau mwy hygyrch o ganllawiau. Er enghraifft, Y cyfan sydd angen i chi ei wybod, Deall Graddau TGAU, UG a Safon Uwch a Bennir gan Ganolfan a Canllaw adolygiadau ac apeliadau.

Cliciwch



Cliciwch

Cliciwch

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi canllawiau yn benodol ar gyfer ymgeiswyr preifat i gefnogi eu mynediad at gymwysterau eleni. Buom yn gweithio gydag Elective Home Education Wales i sicrhau bod y wybodaeth hon, cyn belled ag y bo modd, yn cyrraedd ymgeiswyr preifat a'u rhieni/gofalwyr/tiwtoriaid trwy eu rhwydweithiau. Fe wnaethom hefyd gynnal ymgyrch 'Talu Fesul Clic', i wella dosbarthiad y wybodaeth i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Roedd hyn yn golygu bod y canllaw hwn wedi'i ddangos 5,280 gwaith yng nghanlyniadau chwilio Google.

Cliciwch yma

Fodd bynnag, roedd dysgwyr a rhieni a oedd eisiau'r lefel o fanylion a ddarperir yn y prif ganllawiau cyhoeddiedig yn gallu cyrchu'r rhain ar ein gwefan a/neu drwy ganolfannau.

4. Cofrestriadau

Er gwaethaf yr amgylchiadau unigryw sy'n gysylltiedig â chyfres arholiadau haf 2021 a achoswyd gan bandemig COVID-19, casglwyd data cofrestriadau dros dro fel arfer a'u cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol. Mewn blwyddyn arferol, mae'r ffigurau hyn yn ddangosyddion defnyddiol o newidiadau posibl mewn canlyniadau oherwydd amrywiadau mewn cofrestriadau. Mewn blwyddyn arferol, mae data cofrestriadau yn ein helpu i ddeall gwahaniaethau rhwng canlyniadau mewn blynyddoedd eraill. Fodd bynnag, yn y flwyddyn eithriadol hon, mae cymaint yn wahanol ynglŷn â'r dull o asesu fel bod canlyniadau'n debygol o fod yn wahanol am lawer o resymau eraill, nid dim ond newidiadau i gofrestriadau. O ganlyniad i newidiadau yn y trefniadau asesu, dyddiad cau cofrestriadau a dyddiad adrodd data, efallai na fydd y ffigurau cofrestriadau ar gyfer haf 2021 ar yr un sail yn union â ffigurau blynyddoedd blaenorol, ond maent yn parhau i fod yn gymharol debyg, fel a ganlyn:

TGAU

- Roedd 335,780 o gofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2021. Mae hyn yn gynnydd o 9.0% o gymharu â'r cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2020.
- Roedd y cynnydd yng nghyfanswm y cofrestriadau TGAU yr haf hwn o'i gymharu â'r haf blaenorol yn ganlyniad i gynnydd yng nghofrestriadau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- Cynyddodd cofrestriadau Blwyddyn 11 7.1% yr haf hwn o'i gymharu â haf 2020.

- Cafwyd 27,750 o gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 10 yn haf 2021. Mae hyn yn gynnydd ar haf 2020 pan ddaeth 16,315 o gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 10.
- Gostyngodd cofrestriadau blwyddyn 12 neu'n uwch yr haf hwn, sef 4.2% o gyfanswm y cofrestriadau TGAU.

Safon UG

- Cafwyd 43,670 o gofrestriadau UG ar gyfer haf 2021 yng Nghymru, 2.9% yn fwy na haf 2020.
- Cafwyd 40,425 o gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 12, gan gyfrif am 92.6% o'r holl gofrestriadau. Mae hon yn gyfran lawer mwy na blynyddoedd blaenorol.
- Gostyngodd cofrestriadau dysgwyr Blwyddyn 13 72.8%.

Safon Uwch

- Cafwyd 36,140 o gofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2021, 16.2 % yn fwy nag ar gyfer haf 2020.
- Mae hyn yn gwrthdroi'r gostyngiadau blynyddol cyson mewn cofrestriadau Safon Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a dyma'r nifer uchaf o gofrestriadau Safon Uwch a welwyd yng Nghymru er 2016.
- Roedd mwyafrif y cynnydd o ganlyniad i gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 13, a gynyddodd 19.1% o'i gymharu â'r haf diwethaf, gan gyfrif am 88.7% o'r holl gofrestriadau Safon Uwch yr haf hwn.
- Cynyddodd cofrestriadau dysgwyr Blwyddyn 12 hefyd, ond gostyngodd y cofrestriadau gan grwpiau blwyddyn eraill.

5. Canlyniadau

O ystyried yr holl newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd graddau eleni, roeddem yn disgwyl y byddai canlyniadau cenedlaethol eleni yn wahanol i ganlyniadau blaenorol. Fe wnaethom ysgrifennu blog amlinellu pam y gellid disgwyl gwahaniaethau eleni. Bydd blog dilynol yn amlinellu rhai o'r rhesymau manwl am hyn.

Cyhoeddwyd crynodeb canlyniadau dros dro gennym o ganlyniadau Safon Uwch, UG a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch ar 10 Awst 2021, a detholiad lefel 3 cymwysterau galwedigaethol. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad cychwynnol o ganlyniadau cymwysterau.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau Safon Uwch yn uwch ar radd A ac uwch o gymharu â 2020 (48.3% yn 2021 o gymharu â 41.8% yn 2020, a 27.0% yn 2019).

Gwelir patrymau tebyg mewn deilliannau gradd A ac uwch yn Lloegr (44.3% yn 2021 o'i gymharu â 38.1% yn 2020, a 25.1% yn 2019) a Gogledd Iwerddon (50.8% yn 2021 o gymharu â 43.3% yn 2020, a 30.9% yn 2019[9]).

[9] Data i GI yn 2021 a 2021 yng nghynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gwobr sengl a ddwbl)

Cyhoeddwyd crynodeb canlyniadau dros dro tebyg gennym o ganlyniadau TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau CA4 a chymwysterau galwedigaethol dethol ar 12 Awst 2021.

Mae'r canlyniadau yng Nghymru ar gyfer TGAU yn dangos bod 28.7% wedi cyflawni o leiaf A/7 (o gymharu â 25.5% yn 2020 a 18.4% yn 2019), cyflawnodd 73.6% o leiaf C/4 (o gymharu â 73.8% yn 2020 a 62.8% yn 2019) a chyflawnodd 98.5% o leiaf G/1 (o'i gymharu â 99.6% yn 2020 a 97.2% yn 2019).

Gwelir patrymau tebyg ar y cyfan yn Lloegr a Gogledd Iwerddon: yn Lloegr[10] ar radd A/7 ac uwch (28.5% yn 2021 o'i gymharu â 25.9% yn 2020, ac 20.7% yn 2019) ac ar radd C/4 ac uwch (76.9% yn 2021 o gymharu â 75.9% yn 2020, a 67.1% yn 2019); ac yng Ngogledd Iwerddon ar radd A/7 ac uwch (39.9% yn 2021 o'i gymharu â 36.3% yn 2020, a 30.5% yn 2019) ac ar radd C/4 ac uwch (89.6% yn 2021 o gymharu ag 89.8% yn 2020, ac 82.2% yn 2019).

6. Llesiant dysgwyr

Mae tarfu ar addysgu, dysgu ac asesu gan gynnwys cau canolfannau, y newid sydyn i ddysgu o bell a dysgu cyfunol a threfniadau asesu amgen am yr eildro wedi effeithio ar lesiant dysgwyr. Roedd rhai yn hapus gyda'r dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau a byddai wedi bod yn well gan rai gael arholiadau. Yn y pen draw, roedd y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn caniatáu i ddysgwyr dderbyn graddau eleni fel y gallent barhau i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu gyflogaeth. Mae mynediad i'r cyfleoedd bywyd hyn, er gwaethaf y pandemig, wedi bod yn bwysig ar gyfer llesiant yn y tymor hwy.

Trwy gydol datblygiad y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau, roedd cefnogi llesiant dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft:

- Bwriad hyblygrwydd yn y dull hwn oedd lleihau pwysau ar ddysgwyr ac roedd yn golygu y gallai eu hathro ddewis tystiolaeth asesu dysgwr o ystod o dystiolaeth asesu, a'i chwblhau o bosibl ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd.
- Roedd y dysgwyr yn gallu cwblhau asesiadau gartref, cyhyd ag y gellid eu dilysu fel eu gwaith eu hunain. Roedd hyn yn bwysig mewn achosion lle gallai dysgwyr brofi cyfnodau ynysu parhaus y tu hwnt i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol.
- Roedd athrawon yn gallu ystyried amgylchiadau dysgwyr unigol wrth lunio'u dyfarniadau graddau.
- Roedd y dysgwyr yn gallu gofyn am adolygiad canolfan o'u gradd pe dymunent, gyda'r bwriad o leihau'r potensial ar gyfer pryder ynghylch tegwch y canlyniadau.

Yn dilyn digwyddiadau haf 2020, roedd adborth a dderbyniwyd yn awgrymu y byddai cyfathrebu mwy uniongyrchol â dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr wedi bod yn ddefnyddiol. O ganlyniad, eleni rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr i raddau llawer mwy i leddfu unrhyw ansicrwydd ynghylch sut y byddai eu graddau'n cael eu dyfarnu. Mae mwy o wybodaeth am hyn i'w gweld yn adran 3.2 ac adran 9 y ddogfen hon.

[10] Mae gan Loegr system graddio wahanol sy'n rhedeg o 9-1 gyda 9-7 yn cyfateb i A*-A, , 9-4 sy'n cyfateb I A*-C ac 9.1 sy'n cyfateb i A*-G

7. Cydraddoldeb



Cliciwch yma

Er bod y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau wedi'i gynnig mewn amgylchiadau eithriadol i amddiffyn buddiannau pob dysgwr yng Nghymru, roedd risg y byddai effaith y dull hwn yn wahanol i rai grwpiau. Fodd bynnag, roedd ein dadansoddiadau o effeithiau ar gydraddoldeb yn awgrymu bod y risgiau'n ymwneud yn fwy â materion system ehangach, megis ymgysylltu â dysgu, cymorth cartref ar gyfer dysgu a mynediad at adnoddau, nag yn uniongyrchol â'r trefniadau amgen. Ni all cymwysterau liniaru anghydraddoldebau neu annhegwch yn y system addysg, nac mewn cymdeithas yn ehangach, a allai effeithio, er enghraifft, ar barodrwydd dysgwyr i ymgysylltu â chymwysterau.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom orffen Asesiad Effaith Integredig, a oedd yn cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n benodol i'r dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Roedd yr Asesiad Effaith Integredig hefyd yn ystyried effaith bosibl dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar erthyglau perthnasol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Fe wnaethom gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn fel atodiad i Cydraddoldeb: Rheoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau.

Fel rhan o'n dadansoddiad o effaith y trefniadau manylach ar gyfer haf 2021, fe wnaethom ymgysylltu'n bwrpasol â sefydliadau cydraddoldeb fel y gallem ddeall effaith bosibl y dulliau a gynlluniwyd gennym (rhestrir y rhain yn adran 9 o'r ddogfen hon). Rhoddodd y sefydliadau hyn wybodaeth inni am yr anghydraddoldebau sy'n wynebu rhai grwpiau o ddysgwyr y maent yn teimlo eu bod wedi gwaethygu ers dechrau'r pandemig. Fe wnaethant rannu pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar iechyd meddwl dysgwyr a'r materion yr oeddent yn eu hwynebu mewn perthynas â dysgu o bell. Fe wnaethant hefyd drafod yr anawsterau ychwanegol sy'n wynebu rhai grwpiau o ddysgwyr a allai rannu mwy nag un nodwedd warchodedig berthnasol. Efallai bod yr anawsterau hyn wedi effeithio ar lefel mynediad, neu ymgysylltiad y dysgwyr hyn a'u rhieni neu ofalwyr â'n gwybodaeth am y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau.

Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch effaith allgáu digidol ar gyfleoedd dysgu, colli dysgu gwahaniaethol, a oedd addasiadau rhesymol yn cael eu defnyddio trwy gydol y profiad dysgu, argaeledd cyfathrebiadau hygyrch i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a'r potensial i ragfarn ddylanwadu ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol fel hil, anabledd, rhyw, crefydd a chred, a'r dysgwyr hynny o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Er bod rhai o'r pryderon a godwyd y tu allan i gwmpas y cymwysterau, buom yn gweithio i fynd i'r afael â hwy cyn belled ag y bo modd. Cawsom gefnogaeth gan EHRC Cymru, a luniodd ganllaw i gynorthwyo athrawon a chanolfannau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Buom yn gweithio gyda CBAC a Diverse Cymru, elusen o Gymru sydd wedi ymrwymo i gefnogi pobl sy'n wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu oherwydd nodweddion gwarchodedig penodol, i gefnogi hyfforddiant i athrawon ar osgoi rhagfarn wrth gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Cynlluniwyd cefnogaeth ar osgoi rhagfarn ddiarwybod yn rhaglen gynhwysfawr CBAC o ddysgu proffesiynol a gwnaethom gyhoeddi

gwybodaeth am yr hyfforddiant cysylltiedig â chydraddoldeb sydd ar gael yn ein canllawiau am drefniadau amgen yn haf 2021.

Mae mwy o fanylion am ein gwaith cysylltiedig â chydraddoldeb, gan gynnwys y gwaith cysylltiedig â chydraddoldeb y byddwn yn ei wneud wrth symud ymlaen, yn ein cyhoeddiad Cydraddoldeb: Rheoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021.

8. Trosolwg ar haf 2021

8.1 Ein dull rheoleiddio

Ar 22 Mehefin 2021 gwnaethom gyhoeddi Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru (GQAAFW) ar gyfer haf 2021. Mae hwn yn nodi ein gofynion rheoliadol ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn ystod haf 2021. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom gyhoeddi ein Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad ar gyfer 2021 yn ogystal â chanllawiau ategol. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu'r hyn yr oeddem yn nodi ei bod yn ofynnol i CBAC ei roi ar waith i weithredu'r trefniadau amgen ar gyfer haf 2021

Fel yr amlinellwyd eisoes yn adran 2.1, gwnaethom hefyd gynhyrchu Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 ac Amodau Arbennig ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 yn haf 2020 yr oedd yn ofynnol i CBAC gydymffurfio â hwy wrth wneud addasiadau i'w hasesiadau.

8.2 Monitro cyfres yr haf

Mae ein trefniadau monitro o ddull Graddau a Bennir gan Ganolfannau eleni yn wahanol iawn i'r hyn a wnawn fel rhan o gyfres arholiadau arferol. Rydym yn rheoleiddio CBAC, nid canolfannau a, chan fod llawer o'r gwaith wedi'i wneud ar lefel canolfan yr haf hwn, roedd llai y gellid ei fonitro'n uniongyrchol gennym ni. Er y gallwn ei gwneud yn ofynnol i CBAC fonitro agweddau pwysig sy'n gysylltiedig â chymwysterau, roedd angen i ni ystyried graddfa unrhyw fonitro sy'n ofynnol yr haf hwn. Roedd angen i ni ystyried gallu CBAC i gynnal monitro pellach a baich posibl hyn ar ganolfannau; byddai monitro manwl a wnaed gan CBAC wedi cael effaith uniongyrchol ar hydrinedd trefniadau ar gyfer canolfannau. Mae hyn yn golygu nad oes gennym ddarlun cyffredinol llawn o rai agweddau ar y dull gweithredu.

Fel rhan o'n monitro o gydymffurfiad CBAC yn erbyn y fframwaith dyfarnu amgen ar gyfer haf 2021 a sut y gweithredwyd y trefniadau amgen mewn canolfannau, gwnaethom fonitro prosesau a gweithdrefnau CBAC. Roedd y monitro hwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC adrodd ar ddata allweddol i ni cyn diwrnodau canlyniadau, yn ogystal ag ar ôl. Roedd angen rhywfaint o'r data hwn hefyd ar gyfer ein cyhoeddiadau ystadegau swyddogol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Data cofrestriadau
- Data ar brosesau samplu ac adborth a ddarperir fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd allanol
- Data ar nifer y canolfannau y nodwyd bod ganddynt ganlyniadau annodweddiadol
- Canlyniadau terfynol y cymwysterau

- Data ar geisiadau am adolygiad canolfannau ac apeliadau, a'u canlyniadau.

Roedd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb mewn penderfyniadau graddau ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Cyhoeddodd CBAC fanylion am eu rhaglen eu hunain o brosesau sicrhau ansawdd canolfannau allanol a gweithredu'r rhaglen. Gwnaethom nodi gofynion i CBAC ddarparu diweddariadau ar eu prosesau sicrhau ansawdd allanol, megis cyflwyno polisïau asesu canolfannau ar gyfer gwirio a chyflwyno datganiadau Pennaeth y Ganolfan (a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gadarnhau eu cydymffurfiad eu hunain â'r PSED). Gwnaethom hefyd gadarnhau cwblhau camau gweithredu eraill, megis cyflwyno digwyddiadau hyfforddi a gynlluniwyd. Fodd bynnag, roedd natur y trefniadau amgen ar gyfer haf 2021 a'r amrywiol ffactorau yr oedd yn rhaid eu cydbwyso yn golygu nad oedd yn bosibl monitro effaith y trefniadau wrth iddynt gael eu gweithredu.

8.2.1 Sicrwydd Ansawdd allanol CBAC

8.2.1.1 Polisïau canolfannau

Roedd yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno polisïau canolfannau ar drefniadau asesu ar gyfer haf 2021 i CBAC erbyn 25 Mawrth. Adolygwyd polisïau gan CBAC a gofynnwyd am wybodaeth bellach ar gyfer 73% o'r polisïau a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau cychwynnol. Erbyn 26 Ebrill, roedd 93% o bolisïau wedi'u derbyn a chymeradwywyd erbyn 20 o Fai.

8.2.1.2 Cofnodion gwneud penderfyniadau dysgwyr

Roedd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i bob canolfan gyflwyno uchafswm o 25 cofnod gwneud penderfyniadau dysgwyr. Samplodd CBAC 100% o gofnodion gan wirio brosesau y canolfannau gyfuno a pholisiau. Adolygwyd sampl o gofnodion gwneud penderfyniadau dysgwyr ar gyfer pob canolfan.

8.2.1.3 Canlyniad Canlyniadau

Ar ôl cyflwyno graddau, roeddem yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC rannu data canlyniadau Graddau a Bennir gan Ganolfannau gyda ni yn unol â'r llinell amser a gyhoeddwyd yn nogfen Gofynion Cyfnewid Data Cymru Haf 2021. Gwnaethom hefyd gytuno ar raglen o gyfarfodydd lle gwnaeth CBAC ein briffio ar y canlyniadau, gan gynnwys dadansoddiadau pellach, megis dadansoddiad lefel uchel o fylchau cyrhaeddiad. Mewn cyfres o dri Briff Canlyniadau ar ddiwedd mis Gorffennaf, fe wnaeth CBAC ein diweddaru ar ganlyniadau a'u dadansoddiadau.

8.2.1.4 Canolfannau y nodwyd bod ganddynt ganlyniadau annodweddiadol

Fe wnaeth CBAC ein diweddaru gyda chynnydd ar gyfer y broses canlyniadau annodweddiadol (gweler adran 3.4 am fanylion). I grynhoi, nodwyd bod 61% o ganolfannau dros saith pwynt canran yn uwch na'u canlyniadau gorau ar ddwy radd allweddol o'r canlyniadau yn ystod y tair

blynedd 2017, 2018 neu 2019. Yn dilyn adolygiad proffil canlyniadau canolfannau, a chofnodion dysgwyr cafodd 11% o ganolfannau eu arolygu. Fel y nodwyd ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni weithredodd CBAC i newid canlyniadau trwy'r broses hon, a oedd eleni'n dibynnu ar arfer barn broffesiynol mewn canolfannau. Ni newidiwyd CBAC unrhyw ganlyniadau canolfan o ganlyniad i'r broses hon.

Wrth inni gael ein briffio ar ganlyniadau gan CBAC, gwnaethom ddarparu cyfres o ddiweddariadau i swyddogion Llywodraeth Cymru ac i'r Gweinidog Addysg yn uniongyrchol. Trafodwyd unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac ystyriwyd camau ategol yn ôl yr angen.

Fe wnaethom hefyd ymuno â thrafodaethau â rheoleiddwyr mewn awdurdodaethau eraill i ystyried unrhyw oblygiadau ledled y DU i'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg a chyfathrebu effeithiol ar ddiwrnodau canlyniadau.

8.2.1.5 Gwybodaeth am Adolygiadau Canolfannau

Ar ein rhan, casglodd CBAC ddata o ganolfannau ar nifer a chanlyniadau adolygiadau canolfannau ar lefel gyfanredol i ddarparu gwybodaeth ar faint o ddysgwyr a ddefnyddiodd y broses a roddwyd ar waith yr haf hwn. Gwnaed adolygiadau canolfannau fesul dysgwr fesul cymhwyster.

Nid oedd mecanwaith sefydledig ar gyfer casglu'r data hwn ac roeddem yn ymwybodol o'r angen i osgoi ychwanegu baich diangen i ganolfannau ar gyfnod arbennig o ddwys. Gofynnodd CBAC i ganolfannau gyflwyno data cyfanredol cyn diwedd y tymor. Cyflwynodd 43% o ganolfannau ddata erbyn diwedd y tymor ac ar gyfer y canolfannau hynny, gofynnwyd am ychydig mwy na 2,500 o adolygiadau canolfannau, ar draws cymwysterau TGAU, UG ac A a Tystysgrif Her Sgiliau. Ni arweiniodd bron i 88% o'r adolygiadau hynny at unrhyw newid mewn graddau, arweiniodd 12% at gynnydd mewn graddau ac arweiniodd llai na 0.05% at ostyngiad mewn graddau.

Nid ydym wedi rhestru'r holl ffigurau gan fod y data'n anghyflawn ac felly dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r data hwn. Ni fyddwn ychwaith yn cyhoeddi data ar gyfrifiadau bach i amddiffyn cyfrinachedd unigolion. Bydd CBAC yn mynd ar drywydd y canolfannau hynny nad ydynt wedi cyflwyno data ym mis Medi ond mae CBAC wedi osgoi ceisiadau pellach tan ar ôl y cyfnod gwyliau ysgol. Byddwn yn cyhoeddi data pellach yn nhymor yr hydref.

Gan nad ein gwaith ni na CBAC oedd dylunio na chyflawni'r trefniadau i gefnogi deialog broffesiynol rhwng canolfannau ynghylch eu penderfyniadau gradd, ni wnaethom fonitro'r agwedd hon ar y broses.

9. Sut wnaethon ni gyfathrebu

Wrth i'r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig barhau, roeddem yn gwybod y byddai angen i'r holl randdeiliaid, yn enwedig dysgwyr a chanolfannau, wybod pa drefniadau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer cymwysterau yn haf 2021, cyn gynted â phosibl. Mae rhannu'r wybodaeth gywir ar yr adegau cywir wedi bod yn heriol oherwydd bod y sefyllfa yn newid yn barhaus. Roedd angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng cyhoeddi gwybodaeth gywir a phriodol a chael gwybodaeth allan cyn gynted â phosibl - roedd datblygu'r broses o'r dechrau ac mewn cydweithrediad â llawer o wahanol randdeiliaid yn gwneud hyn yn her. Gwnaethom geisio sicrhau cydbwysedd trwy gydol ein holl waith i sicrhau bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu yr haf hwn.

Gwnaethom sefydlu gweithgor ar y cyd â Llywodraeth Cymru a CBAC i gynllunio a chydlynu cyfathrebiadau perthnasol a chyfarfod yn wythnosol. Helpodd y grŵp hwn i ddatblygu Cynllun Cyfathrebu Strategol i sicrhau bod dull 'cydgysylltiedig' o rannu gwybodaeth am y trefniadau, yn enwedig mewn perthynas â chanolfannau a dysgwyr. Darparwyd diweddariadau rheolaidd gan y grŵp hwn i'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni.

Un o'r meysydd ffocws allweddol yn ein gwaith oedd gwella cyfathrebu â dysgwyr. Cawsom adborth uniongyrchol gan Senedd Ieuenctid Cymru a'n Grŵp Cynghori i Ddysgwyr bod angen iddynt gael mwy o wybodaeth yn gyflymach ac yn amlach. Eleni gwnaethom gyflwyno llythyrau dysgwyr a anfonwyd at ddysgwyr trwy nifer o sianeli, canolfannau ac Awdurdodau Lleol yn bennaf. Yn y llythyrau hyn gwnaethom geisio egluro agweddau allweddol ar y dulliau a oedd yn berthnasol bryd hynny. Cawsom gyngor a chefnogaeth ddefnyddiol gan Gomisiynydd Plant Cymru mewn perthynas â'r dull hwn a chynnwys y llythyrau hyn.

Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol y dylem ymgysylltu'n fwy effeithiol â dysgwyr i baratoi ar gyfer haf 2021. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, gwnaethom sefydlu Grŵp Cynghori i Ddysgwyr ym mis Ebrill 2021. Er na sefydlwyd y grŵp hwn mewn pryd i gael mewnbwn i'r dull ar gyfer haf 2021, bydd yn cyfrannu at ein cynllunio wrth gefn ar gyfer haf 2022. Rydym hefyd wedi derbyn adborth gan y grŵp sydd wedi llywio ein cyfathrebiadau a rhai manylion terfynol am y prosesau ar gyfer haf 2021.

Mae gwaith i gynnwys llais y dysgwr ymhellach yn ein gwaith wedi cynnwys lansio ein cyfrif Instagram ym mis Ebrill 2021. Rydym wedi cymryd rhan mewn deialog estynedig gyda dysgwyr ac wedi lansio holiadur adborth i ddysgwyr rannu eu barn gyda ni, sydd wedi ein helpu i wella ein gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu. Yn ogystal, gwnaethom gyhoeddi fersiynau mwy hygyrch o'n canllawiau yn benodol ar gyfer dysgwyr (a'u rhieni/gofalwyr) fel yr amlinellwyd yn adran 3.6 uchod.

Gwnaethom greu ardal Cymwysterau Haf 2021 bwrpasol ar ein gwefan a'i diweddaru'n rheolaidd i ddarparu gwybodaeth gyfredol am yr holl ddatblygiadau. Roedd y wybodaeth a gyhoeddwyd yn cynnwys:

- blogiau
- cynnwys fideo
- llythyrau a gwybodaeth i ysgolion a cholegau
- datganiadau Cymwysterau Cymru a
- cwestiynau a ofynnir yn aml

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd mewn traffig i'n gwefan. Rhwng Medi 2020 a Mehefin 2021, bu 10,943 ymweliad â'n tudalennau gwe pwrpasol 'Dyfarnu yn 2021' ac, yn gyffredinol, cyrchwyd ein gwefan 18,818 o weithiau trwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Lansiwyd cyfrif Instagram newydd ym mis Ebrill i gryfhau ein hymgysylltiad â dysgwyr a chyflwyno negeseuon allweddol ynghylch haf 2021. Ar hyn o bryd mae gan y dudalen 217 o ddilynwyr gyda'r cynnwys yn aml yn cael ei rannu gan randdeiliaid. Yn yr un cyfnod, enillodd ein tudalen Twitter 1,202,400 o argraffiadau (nifer o weithiau yr arddangoswyd ein cynnwys). Mae hyn yn ostyngiad bach o 8.6% ers y flwyddyn flaenorol lle cawsom 1,310,800 o argraffiadau ond rydym yn parhau i gael mwy na dwbl nifer yr argraffiadau a gafwyd cyn y pandemig. Cawsom 47,320 o ymgysylltiadau rhwng Medi 2020 a Mehefin 2021, o'i gymharu ag 80,090 yn y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm ein trydariadau yn y cyfnod hwn oedd 396. Mae ein Tîm Cysylltiadau Allanol wedi ymateb i dros 244 o negeseuon e-bost a galwadau ffôn uniongyrchol gan ystod o randdeiliaid y flwyddyn academaidd hon.

Yn ogystal â gwaith partneriaeth a amlinellwyd yn flaenorol, gwnaethom ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol ar ddatblygiadau i ddarparu diweddariadau a/neu i drafod eu pryderon a'r effaith ar gyflawni:

- Ein Grŵp Cyfeirio Penaethiaid (HTRG)
- Consortia Addysg Rhanbarthol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Sefydliadau Cynrychiolwyr Undebau Llafur (TURO)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Gyrfa Cymru
- Senedd Ieuenctid Cymru; Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
- Grwpiau cynrychiolwyr lleiafrifol a chynrychiolwyr rhieni ac
- Estyn.

Gwnaethom hefyd ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r sefydliadau cydraddoldeb canlynol a oedd â mewnbwn sylweddol i'n Hasesiad Effaith Cydraddoldeb o'r dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau:

- EHRC Cymru
- Cyngor Mwslimaidd Cymru, Cyngor Hil Cymru, Dinasyddion Cymru
- Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Teithio Ymlaen
- Diverse Cymru
- Samaritans yng Nghymru

Mae mwy o wybodaeth am ein hymgysylltiad â grwpiau cydraddoldeb penodol, yn enwedig wrth ddatblygu'r dull amgen a gymerwyd eleni, yn Cydraddoldeb: Rheoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau.

Wrth agosáu at ddiwrnodau canlyniadau, gwnaethom greu adran Canlyniadau bwrpasol ar y wefan gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth ategol i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â chanlyniadau haf 2021.

10. Beth nesaf? – Dull 2021/2022

10.1 Cyfres arholiadau Tachwedd 2021

Rydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd cyfres arholiadau Tachwedd 2021 yn mynd yn ei blaen, ar yr amod na fydd COVID-19 yn cau canolfannau eang pellach, ac wedi cyfleu hyn i ganolfannau mewn llythyr ym mis Mai ac yna diweddariad ym mis Gorffennaf. Bydd cymwysterau TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith ar gael, fel arfer. Bydd yr asesiadau yn y gyfres hon yn ddarostyngedig i'r addasiadau gwreiddiol i asesiadau ar gyfer 2021, a gyhoeddir gan CBAC 20 o Orffennaf.

10.2 Cyfres arholiadau Haf 2022

Profodd dysgwyr aflonyddwch sylweddol o ran eu dysgu wyneb yn wyneb yn 2020 a 2021 oherwydd effaith y pandemig. Er gwaetha'r ffaith eu bod wedi dychweliad i ganolfannau a bod cyfyngiadau iechyd cyhoeddus wedi'u llacio, mae dysgwyr yn parhau i gael eu heffeithio gan ffactorau megis pellhau cymdeithasol, maint dosbarthiadau llai a'r posibilrwydd sydd ar ddod o gau canolfannau ymhellach pe bai amrywiad newydd o goronafeirws yn cynyddu cyfradd yr haint.

Er mwyn lliniaru amser addysgu a dysgu a gollwyd, gwnaethom gadarnhau ym mis Mawrth 2021 y bydd addasiadau yn cael eu gwneud i asesiadau ar gyfer 2022. Mae CBAC wedi cynnig addasiadau ar gyfer gofynion asesu ar gyfer cymwysterau cyffredinol Cymeradwy yng Nghymru, yn unol â'n dogfennau Rheoleiddio newydd; Gofynion ar gyfer addasu asesiadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn 2022 ac Amodau Arbennig ar gyfer Addasu asesiadau yn 2021/2022. Yn dilyn ymgynghori ar eu haddasiadau arfaethedig, cyhoeddodd CBAC addasiadau terfynol ar eu gwefan ddiogel, ym mis Gorffennaf 2021, lle gall canolfannau gyrchu'r manylion, a'u cyhoeddi ar eu gwefan gyhoeddus ym mis Awst 2021.

Ar hyn o bryd, rydym yn llwyr ddisgwyl y bydd cyfres arholiadau lawn yn haf 2022 a bydd y gofynion asesu wedi'u haddasu a roddwyd ar waith eisoes yn lliniaru peth o'r aflonyddwch a gafwyd yn ystod y pandemig. Gan fod sefyllfa iechyd y cyhoedd yn gwella, gellir dadlau bod mwy o debygolrwydd y bydd yr arholiadau'n gallu bwrw ymlaen yn haf 2022 nag a oedd ar yr un pryd y llynedd. Am yr un rheswm, mae mwy o siawns y bydd y cyhoedd yn cefnogi gweld yr arholiadau hynny'n digwydd na'r sefyllfa'r un amser y llynedd. Fodd bynnag, mae'n amhosibl gwybod beth fydd sefyllfa iechyd y cyhoedd dros y flwyddyn nesaf ac mae angen i ni gynllunio ar gyfer senarios lle efallai na fyddwn yn gallu dibynnu ar gyfres arholiadau lawn i ddyfarnu graddau, pe bai cyfnod sylweddol o aflonyddwch cenedlaethol ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb neu fod sefyllfa iechyd y cyhoedd yn atal cynnal y gyfres arholiadau lawn yn haf 2022. Nid ydym yn gwybod beth fydd effaith y pandemig wrth symud ymlaen. Felly, rydym yn archwilio'r opsiynau wrth gefn sydd ar gael inni pe bai angen i ni weithredu trefniadau asesu amgen am y trydydd tro yn haf 2022.